**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**Rheoliadau Ioneiddio (Safonau Diogelwch Sylfaenol) (Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 26 Hydref 2018*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Bydd |
| Gweithdrefn: | Negyddol arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | 5 Tachwedd 2018 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 5 / 6 Tachwedd 2018 |
| Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 15 Tachwedd 2018 |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 19 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Anhysbys |
| Y weithdrefn | Negyddol neu Gadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Sylwadau**

Mae Gwasanaethau Cyfreithiol y Cynulliad yn cytuno â diben ac effaith y Rheoliadau hyn, fel y'u nodir yn hysbysiad Llywodraeth Cymru.

O ran y rhesymau pam mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol bod y Rheoliadau hyn gan Lywodraeth y DU yn cynnwys darpariaethau datganoledig, efallai y bydd yr Aelodau am drafod paragraff canlynol yr hysbysiad:

"Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i

weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd. "